# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 6

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Dyletswyddau lletya*

### 75 Dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal

(1) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau sy'n sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu i'r plant a grybwyllir yn is-adran (2) lety sydd—

- (a) o fewn ardal yr awdurdod, a
- (b) yn diwallu anghenion y plant hynny.

(2) Y plant y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw'r rhai—

- (a) y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt,
- (b) nad yw'r awdurdod yn gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2), ac
- (c) y mae natur eu hamgylchiadau yn golygu y byddai'n gyson â llesiant y plant i lety sydd yn ardal yr awdurdod gael ei ddarparu iddynt.

(3) Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1), rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i fantais cael—

- (a) nifer o ddarparwyr llety yn ei ardal sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswydd, a
- (b) ystod o lety yn ei ardal a allai ddiwallu anghenion gwahanol ac sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswydd.

(4) Yn yr adran hon ystyr "darparwyr llety" yw—

- (a) rhieni maeth awdurdod lleol, a

(b) cartrefi plant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 75 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 75 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 75 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))